# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

# CYNNYDD HYD YN HYN YN Y GWAITH O WEITHREDU CYMUNEDAU'N GYNTAF

## Pwrpas

1. Hysbysu'r Pwyllgor a gofyn am ei safbwyntiau ar y cynnydd hyd yn hyn yn y gwaith o weithredu'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf.

## Crynodeb

2. Lansiwyd y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf ym mis Mehefin 2001, pan gyhoeddodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau y gyfran gyntaf o Gymunedau a oedd yn gymwys dan y rhaglen. Ers hynny, mae'r rhaglen wedi datblygu'n gyflym. Amgaeir adroddiad manwl o'r cynnydd a wnaed hyd yma yn Atodiad A.
3. Dyma'r pwyntiau allweddol:

- mae'r ardaloedd sy'n gymwys i'w cynnwys yn y rhaglen wedi cael eu cyhoeddi;
- clustnodwyd £10.3m yn 2001-02 dan y Gyllideb Dibenion Cymunedol i gefnogi amrywiaeth o weithgareddau dan y rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf, Pobl mewn Cymunedau a Chymunedau Cynaliadwy;
- mae cyfarwyddyd cyffredinol wedi ei gyhoeddi;
- mae 36 Partneriaeth Cymunedau'n Gyntaf wedi eu ffurfio, neu bron â'u ffurfio;
- mae Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf wedi ei sefydlu, sy'n cynnwys amrywiaeth o sefydliadau, i ddarparu cefnogaeth i Bartneriaethau;
- mae Fframwaith Monitro a Gwerthuso yn cael ei ddatblygu; a
- mae Strategaeth Gyfathrebu yn cael ei datblygu i hyrwyddo Cymunedau'n Gyntaf.

## Cefndir

1. Mae Cymunedau'n Gyntaf wedi ei seilio ar yr egwyddor y dylai adfywio cymunedol gwrdd â'r anghenion a bennwyd gan y cymunedau eu hunain. Ei nod ymhlith pethau eraill yw:

- cynnwys cymunedau;
- cyflawni canlyniadau sy'n arwain at gynaladwyedd;
- cryfhau partneriaethau sy'n gweithio tuag at ddatblygu cymunedau iachach; a,
- chwrdd ag ymrwymiad tymor hir i ddarparu adnoddau.

1. Mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau, yn ei hadroddiadau ysgrifenedig a llafar, yn darparu'r newyddion diweddaraf ar gynnydd sy'n cael ei wneud dan y rhaglen i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn rheolaidd.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynnydd hyd yn hyn yng nghyswllt Cymunedau'n Gyntaf a rhoi sylwadau ar ei ddatblygiad yn y dyfodol.

**Cyfarwyddiaeth Cymunedau**

**Mai 2002**